# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 129(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Diweddariad a chamau nesaf y Grant Datblygu Disgyblion

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd: Yr Amgylchedd yng Nghymru

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru o Wasanaethau Iechyd Rhywiol

(45 munud)

## 7 Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018

(15 munud)

**NDM6700** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mawrth 2018.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

(5 munud)

**NDM6699** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn canlynol:

a) adrannau 2 – 20

b) Atodlen 1

c) Atodlen 2

d) Adran 1

e) Teitl hir

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 18 Ebrill 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12/04/2018 i'w hateb ar 17/04/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Lynne Neagle** *Torfaen*

1 OAQ51981

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OAQ51983

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i ladd-dai annibynnol yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

3 OAQ51967

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yng Ngorllewin Clwyd?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

4 OAQ52011

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gorsaf bws yng nghanol dinas Caerdydd?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

5 OAQ52013

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y grant gwisg ysgol?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

6 OAQ51975

Sut y mae'r Prif Weinidog yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd gwybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

7 OAQ51969

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

8 OAQ52012

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu economaidd yng Nghasnewydd?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**9** OAQ52005

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu ffermwyr a pherchnogion anfeiliaid yr effeithir arnynt gan y prinder presennol mewn porthiant yng Nghymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

**10** OAQ52001

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar atgyweirio cefnffyrdd?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**11** OAQ51990

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â hwyluso'r broses o adeiladu rhagor o garchardai yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**12** OAQ51997

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella effeithlonrwydd ynni tai yng Nghymru?

**Lee Waters** *Llanelli*

**13** OAQ52010

A wnaiff y Prif Weinidog ymateb i ganfyddiadau adroddiad blynyddol mwyaf diweddar Estyn bod dwy ran o dair o ysgolion cynradd yn dangos diffygion pwysig mewn safonau TGCh?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**14** OAQ51996

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl cyd-ymatebwyr?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**15** OAQ51972

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ffordd osgoi rhwng Caernarfon a Bontnewydd?

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 24 Ebrill 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd: Ansawdd Aer (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon: Henebion Hygyrch i Bawb (45 munud)
- Rheoliadau Llywodraeth Ddigidol (Cyrff Cymreig) (Cymru) 2018 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) (60 munud)

**Dydd Mercher 25 Ebrill 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Materion Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) - penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth (30 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - David Rees (Aberafan) (30 munud)

**Dydd Mawrth 1 Mai 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Adolygiad Man Canol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2018 (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Perchnogaeth Tai Cost Isel (45 munud)

**Dydd Mercher 2 Mai 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Materion Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Caffael Cyhoeddus (30 munud)
- Dadl gan Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl fer - Rhianon Passmore (Islwyn) (30 munud)

**Dydd Mawrth 8 Mai 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Uchelgeisiau ar gyfer Prif Reilffyrdd Great Western a Gogledd Cymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Dyfodol Rheoli Tir (45 munud)
- Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Diweddariad ar y Rhaglen Swyddi Gwell yn Nes Adref (45 munud)

**Dydd Mercher 9 Mai 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Materion Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Prentisiaethau yng Nghymru (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)